# Minutes

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mercher, 15 Chwefror 2023 |
| Time: | 4.00 pm |
| Present: | Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Batrouni, J Clarke, D Davies, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall |

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Dim.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 11 Ionawr yn gywir.

4 **Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys - 2023/24**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad blynyddol a oedd yn manylu ar gynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor, effaith ariannol y rheiny yn nhermau benthyca, a'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn.

Roedd hi'n bwysig nodi mai'r Cyngor llawn yn y pen draw fyddai'n cymeradwyo'r terfynau benthyca a'r dangosyddion darbodus yn yr adroddiad. Roedd gofyn i'r Cabinet, fodd bynnag, gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf fanwl ei hun.

Roedd hi hefyd yn bwysig nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod diweddaraf ac wedi rhoi sylwadau. Yn yr achos hwn, dim ond sylwadau i gefnogi'r strategaethau a gynigiwyd gan y Pwyllgor, ac nid oedd unrhyw bryderon wedi'u codi.

O ran yr adroddiad ei hun, tynnwyd sylw at nifer o bwyntiau allweddol:

- Roedd y Cyngor yn cychwyn ar ffenestr rhaglen gyfalaf newydd, gyda'r rhaglen gyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth eleni a rhaglen bum mlynedd newydd yn dod i rym o fis Ebrill.

- Yn flaenorol, byddai'r rhaglen yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd, ond y cynnig oedd newid i ddull treigl o reoli'r rhaglen gyfalaf, gan olygu y byddai'r rhaglen gyfan, a fforddiadwyedd benthyciadau, yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

- Byddai'r newid hwn yn ychwanegu mwy o hyblygrwydd wrth reoli'r rhaglen, ac i gyd-fynd â hyn roedd trefniadau llywodraethu cryfach yn cael eu cyflwyno, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

- Oherwydd y cyd-destun ariannol hynod heriol, nid oedd y rhaglen arfaethedig ond yn cynnwys cynlluniau a oedd ar y gweill a chynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol, a oedd yn cael eu cario drosodd o'r rhaglen bresennol, a symiau blynyddol, a oedd yn cynnwys gweithgareddau fel cynnal asedau'n flynyddol ac adnewyddu fflyd.

- Er nad oedd unrhyw gynlluniau newydd yn cael eu cynnwys, roedd hi'n dal i fod yn rhaglen sylweddol, yn enwedig ym mlynyddoedd 1 a 2, ac yn cynnwys nifer o gynlluniau blaenoriaeth uchel y Cabinet.

- Oherwydd yr heriau'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, nid oedd y strategaeth yn cynnwys unrhyw le i fenthyca o'r newydd, gan olygu nad oedd rhyw lawer o hyblygrwydd o ran cyfalaf (i'w ddefnyddio i ganlyn cynlluniau newydd neu dalu am gynnydd yng nghostau cynlluniau presennol). O ganlyniad i hynny, byddai angen achub ar bob cyfle i roi hwb i gyfalaf ychwanegol drwy ffynonellau untro er mwyn parhau i ymateb i bwysau a fyddai'n dod i'r amlwg wrth iddynt godi.

- Er nad oedd unrhyw fenthyciadau newydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon, byddai benthyciadau a gymeradwywyd yn flaenorol yn cael eu hysgwyddo dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan gynyddu'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf cyffredinol a lefel dyledion y Cyngor.

- Roedd y terfynau benthyca a gynigiwyd yn cymryd hyn i ystyriaeth ac roedd canlyniad refeniw benthyca ychwanegol (ee llog taladwy ar fenthyciadau) eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ar ôl buddsoddiad a wnaed i'r gyllideb yn 2021/22. Roedd y rhaglen a gynigiwyd felly yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy.

- O ran Rheoli'r Trysorlys, roedd yr adroddiad yn manylu ar ddull y Cyngor o fenthyca a buddsoddi.

- Roedd yn cadarnhau y byddai'r Cyngor yn canlyn strategaeth fenthyca fewnol, gan ddefnyddio adnoddau arian parod a oedd ar gael i ohirio benthyca allanol hyd o bo modd, ac ni fyddai ond yn trefnu i fenthyca cyn y byddai angen yn codi pan fyddai rheswm ariannol clir dros wneud hynny.

- O ran buddsoddi, byddai'r Cyngor yn parhau i roi'r flaenoriaeth i sicrwydd, hylifedd ac arenillion, yn y drefn honno, gan daro cydbwysedd priodol rhwng risg ac arenillion.

- Roedd angen balans buddsoddi isafswm o £10m a byddai buddsoddiadau tymor hwy, yn aml ag arenillion uwch, yn parhau i gael eu hystyried.

Roedd sylwadau'r Pennaeth Cyllid yn yr adroddiad cyflwyno yn ymdrin yn uniongyrchol â fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd, ac yn cadarnhau bod y strategaeth a'r rhaglen arfaethedig yn bodloni'r holl feini prawf hynny.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Roedd y Cynghorydd D Davies yn croesawu'r strategaeth gyfalaf newydd a'i chyd-destun deng mlynedd gan fod cymaint o newid yn digwydd, roedd yr adolygiad blynyddol yn ffordd dda o symud ymlaen. Roedd hi'n newydd da hefyd y byddai Rhaglen Gyfalaf Band B yn cael ei chwblhau.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn argymell y canlynol i'w cymeradwyo gan y Cyngor:

- Y Strategaeth Gyfalaf (Atodiad 2), gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig oddi mewn iddi (a ddangosir ar wahân yn Atodiad 1), a'r gofynion/terfynau benthyca sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen arfaethedig.

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm (DRI) ar gyfer 2023/24. (Atodiad 3)

Yn rhan o'r uchod, nododd y Cabinet:

- Y ddyled gynyddol, a'r gost refeniw a oedd yn cyd-fynd â hyn, wrth gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf newydd, a goblygiadau hyn dros y tymor byr a chanolig o ran fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd.

- Sylwadau'r Pennaeth Cyllid, sef bod angen cyfyngu benthyca i'r hyn sydd ei angen er mwyn cyllido cynlluniau parhaus a chynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol a ddygwyd ymlaen o'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol yn unig, a'r dangosyddion darbodus a argymhellir ar derfynau benthyca er mwyn cyflawni hyn.

- A gwneud sylwadau ar y cynnig i flaenoriaethu symiau cyllid blynyddol dros unrhyw gynlluniau newydd, onid oedd hynny'n amhosib i'w osgoi.

Yr adborth a roddwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 26 Ionawr 2023 (paragraff 5).

5 **Monitor Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad nesaf i'w gyd-aelodau, sef diweddariad refeniw chwarter tri i'r Cabinet yn esbonio'r rhagolygon cyfredol o sefyllfa'r Awdurdod ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd yr adroddiad yn amlygu rhagolygon cyfredol cyllideb refeniw'r Cyngor a'r risgiau a'r cyfleoedd ariannol a oedd yn dod i'r amlwg.

Gofynnwyd i'r Cabinet:

(i) Nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran rhagolygon y gyllideb a oedd yn deillio o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a'r elfennau o ansicrwydd a oedd yn weddill, a'r risgiau a oedd yn dal yn bresennol.

(ii) Cytuno y dylai'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol barhau i adolygu a herio rhagolygon meysydd gwasanaeth er mwyn ceisio rheoli'r rhagolygon cyffredinol o fewn y gyllideb refeniw craidd, gan gynnwys symiau wrth gefn y gyllideb refeniw.

(iii) Nodi'r risgiau allweddol a nodwyd drwy gydol yr adroddiad, yn enwedig yn gysylltiedig â lleoliadau digartrefedd a gofal cymdeithasol.

(iv) Nodi'r sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ysgolion, o gymharu â'r blynyddoedd cynt, ond nodi hefyd y risg y gallai diffygion ymddangos mewn cyllidebau yn y dyfodol heb gynllunio a rheoli arian yn dda.

(v) Nodi'r newidiadau a ragwelwyd yn y cronfeydd wrth gefn.

(vi) Cymeradwyo dyrannu tanwariant 2021/22 a oedd yn dal heb ei ddyrannu yn yr alldro, fel y nodwyd yn adran 4 yr adroddiad, gan nodi lefel cronfeydd cyffredinol a chlustnodedig y Cyngor yn sgil hynny.

-

Yn erbyn cyllideb net o £343 miliwn, roedd sefyllfa refeniw mis Rhagfyr ar hyn o bryd yn rhagweld tanwariant o £1.1 miliwn, a oedd yn cynrychioli llai na 0.4% o amrywiant yn erbyn y gyllideb. Roedd y tanwariant hwn yn bodoli ar ôl defnyddio holl symiau wrth gefn y gyllideb refeniw, sef £4.7 miliwn a oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb refeniw 2022/23, fel y cytunwyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2022.

Er sefydlu'r symiau wrth gefn hyn ar gyfer y gyllideb ym mlwyddyn 2022/23 i ymdrin â phroblemau'n dilyn covid, cafwyd gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd galw allweddol a risgiau eraill yn dod i'r amlwg o fewn meysydd gwasanaeth.
Gwrthbwyswyd y rhain yn erbyn (i) symiau wrth gefn y gyllideb refeniw a ddarparwyd i'r Cyngor (ii) cynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor a (iii) cyllidebau eraill heb fod yn gysylltiedig â gwasanaethau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Gwelwyd y sefyllfa a ragwelwyd yn gwella o £2.5 miliwn ers diweddariad diwethaf y Cabinet, yn bennaf yn sgil cyllid grant untro a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chyllid dileu elw o ofal cymdeithasol plant a chyllid ar gyfer y dull Neb Heb Help o gefnogi pobl ddigartref. Er bod y cyllid grant ychwanegol yn cael ei groesawu, roedd y Cabinet yn ymwybodol o'r prif feysydd lle cafwyd gorwariant o fewn meysydd gwasanaeth, fel y nodwyd yn yr adroddiad a'i atodiadau.

Dyma rai o'r prif feysydd a oedd yn cyfrannu at y gorwariant o £5 miliwn a ragwelwyd o fewn meysydd gwasanaethu:

- Cynnydd yn y galw ar draws meysydd gofal cymdeithasol allweddol, gan gynnwys lleoliadau brys i blant, a lleoliadau i blant y tu allan i'r ardal. Roedd y ddau faes hyn eu hunain yn cyfrannu gorwariant o fwy na £4 miliwn at sefyllfa gyffredinol y gwasanaethau.

- Effaith dyfarniad cyflog 2022/23 NJC - byddai'r cynnydd cyfartalog i staff y Cyngor oddeutu 6.4% o gymharu â'r ddarpariaeth o 4% yn y gyllideb. Roedd hyn yn golygu y bod gorwariant o £2.4 miliwn yn cael ei ragweld ar gyfer staff nad oeddent yn gweithio mewn ysgolion.

- Roedd pwysau sylweddol yn amlwg o fewn Tai a Chymunedau, mewn perthynas â digartrefedd. Rhagwelwyd gorwariant o £1.9miliwn ar ôl dyfarnu'r cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

  Dyma'r prif faterion:

  a. Y nifer fawr o unigolion/aelwydydd sydd mewn llety dros dro, gan adlewyrchu parhad o'r sefyllfa a gafwyd yn ystod cyfnod Covid.

  b. Diffyg opsiynau llety addas sy'n arwain at ddefnydd sylweddol o westai a llety gwely a brecwast ar gost llawer uwch nag opsiynau mwy traddodiadol.

  c. Mae’r cap ar gymhorthdal Budd-dal Tai yn golygu mai ond cyfran o'r costau hyn sy'n cael eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

- Yn ogystal â'r risgiau parhaus hyn, roedd materion hefyd wedi dod i'r amlwg eleni a fyddai'n parhau i gael eu monitro'n agos. Ymhlith eraill, roedd y rhain yn cynnwys trafnidiaeth Addysg Arbennig ac AAA a oedd yn rhagweld gorwariant o £496k oherwydd cynnydd yng nghostau gweithredwyr oherwydd chwyddiant, a diffyg o £340k yn incwm meysydd parcio. Roedd disgwyl i'r gorwariant yn y meysydd hyn lle'r oedd risg yn dod i'r amlwg fynd heibio £800k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd pwysau pellach yn amlwg ym maes cynnal a chadw'r fflyd, yn sgil cynnydd mewn prisiau tanwydd a'r costau cynyddol yn gysylltiedig â chynnal a chadw.

- Rhagwelwyd diffyg yn erbyn yr arbedion a gyflawnwyd yn 2021/22 a'r flwyddyn gynt o £541k, yn bennaf oherwydd oedi wrth weithredu'r camau angenrheidiol, a oedd yn deillio'n rhannol o'r pandemig.

  Fodd bynnag, roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod disgwyl i'r holl arbedion a oedd heb eu cyflawni gael eu cyflawni'n llawn dros y flwyddyn ariannol nesaf, neu fod cynnig i ymdrin â nhw yn rhan o'r gyllideb ddrafft.

- Roedd tanwariant yn erbyn y gyllideb refeniw craidd wrth gefn a symiau wrth gefn dros dro eraill yn lliniaru gorwariant mewn meysydd gwasanaeth. Dangoswyd rhagolygon o £4.7miliwn o danwariant yn erbyn cyllidebau nad oeddent yn gysylltiedig â gwasanaethau. Yn ogystal â hynny, roedd tanwariant o £2.3 miliwn wedi'i ragweld yn erbyn cyllid cyfalaf, yn benodol ar log PFI, ac arbediad o bron i £1 miliwn wedi'i ragweld yn erbyn cyllideb cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

Ar wahân, rhagamcanwyd y byddai gorwariant o £5.3 miliwn yn yr ysgolion. Roedd cyfran o'r swm hwn wedi'i gynllunio, a byddai cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn gostwng yn unol â'r gyfran honno. Yn ogystal ag effaith dyfarniad cyflog uwch o gymharu â'r cynnydd yn y gyllideb a ganiatawyd ar gyfer hynny, roedd ysgolion yn tynnu cronfeydd i lawr a oedd wedi cronni dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth iddynt weithredu er mwyn dal i fyny / cryfhau'r ddarpariaeth ar ôl effeithiau Covid, a dal i fyny ar welliannau cynnal a chadw / cysylltiedig.

Roedd angen parhau i fonitro'r maes hwn yn gadarn, oherwydd er nad oedd yr un ysgol wedi pennu diffyg i'w chyllideb, roedd ambell ysgol yn mynd i ddiffyg yn ystod y flwyddyn yn sgil adlewyrchu effaith y dyfarniad cyflog mewn rhagolygon ysgolion unigol.

At ei gilydd, roedd y sefyllfa bresennol o ran balansau'r ysgolion wedi gwella o gymharu â'r pryderon a welwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol. Fodd bynnag, roedd yn dal angen craffu'n agos ar bob sefyllfa a sicrhau bod cynlluniau adfer wedi'u sefydlu ac yn cael eu cyflawni'n unol â'r bwriad er mwyn osgoi dychwelyd i'r sefyllfa flaenorol.

Mae'n rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn a cheisio osgoi sefyllfa lle gallai cyllidebau gael eu hystyried yn ormodol, a byddai felly'n ystyriaeth allweddol wrth bennu cyllidebau refeniw yn y dyfodol ac wrth adolygu'r cynllun ariannol tymor canolig.

Gan fod y Cyngor yn nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd sicrwydd rhesymol ynghylch llawer o'r meysydd lle'r oedd gorwariant, ac roedd y gwerthoedd a briodolwyd yn realistig. Fel bob amser, serch hynny, roedd potensial i'r sefyllfa newid ac roedd y meysydd hyn yn parhau i gael eu monitro ym mlynyddoedd olaf y flwyddyn ariannol.

Er bod sefyllfa'r meysydd gwasanaeth wedi gwella ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau cyllid ychwanegol, ac ystyried yr heriau yr oeddent yn debygol o ymddangos yng nghyllideb 2023/24, roedd angen gostwng gorwariant mewn meysydd gwasanaeth eto, yn enwedig yn y meysydd allweddol a nodwyd. Yn ogystal â hynny, roedd angen rheoli unrhyw bwysau newydd o fewn adnoddau presennol hyd y bo hynny'n ymarferol.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn, roedd hi'n bwysig i wasanaethau ddeall unrhyw effeithiau tymor hwy yn sgil yr heriau o'u blaen, a nodi strategaethau i leihau'r effeithiau hynny hyd yr eithaf. Roedd hyn oherwydd bod y rhagolygon ar gyfer y tymor canolig eisoes yn heriol. Ni fyddai unrhyw broblemau ariannol pellach ond yn ychwanegu at yr her honno.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Teimlai'r Cynghorydd Marshall fod yr ychwanegiad hwn yn rhywbeth i'w groesawu a diolchodd i'r staff am eu gwaith caled a'u cyfraniad, gan mai Casnewydd oedd yr unig Gyngor yng Nghymru i dderbyn y cyllid.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd D Davies at y portffolio addysg mewn perthynas â'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, lle'r oedd bwriad i wario £5.3M ar brosiectau cyfalaf a'r oedi mawr oherwydd covid, deunyddiau a chaniatâd cynllunio. Gyda hyn mewn golwg, nid oedd hyn yn golygu na fyddai'n cael ei fonitro'n ofalus gan yr ysgolion yn y dyfodol, yr oedd angen iddynt hefyd fod yn ddarbodus yn gysylltiedig â hyn.

- Gwnaeth y Cynghorydd Batrouni ddau bwynt; roedd y refeniw'n gadarnhaol ar y cyfan, ond ni ddylem laesu dwylo, gan fod pwysau i'w weld mewn meysydd fel tai a gwasanaethau plant ac nid oedd unrhyw ateb byrdymor i hynny. Arian grant gan LlC oedd hyn, ac nid darpariaeth barhaus, felly roedd angen inni fod yn ddarbodus i sicrhau bod y problemau hirdymor yn cael eu datrys, nid yn unig yng Nghasnewydd ond ym mhob cyngor ar draws y wlad. Yn ail, er gwaethaf y gorwariant ar y gyllideb cyflogau, roeddem ni fel Cabinet yn falch ein bod wedi rhoi cynnydd cyfartalog o 6% yn gysylltiedig â chwyddiant, gan roi un o'r setliadau cyflog gorau i weithwyr Cyngor. Roedd yr Arweinydd yn gwerthfawrogi sylwadau'r Cynghorydd Batrouni, a mynegodd ymrwymiad y Cabinet i weision sifil yng Nghasnewydd.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet

- Yn nodi'r sefyllfa gyffredinol o ran rhagolygon y gyllideb a oedd yn deillio o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a'r elfennau o ansicrwydd a oedd yn weddill, a'r risgiau a oedd yn dal yn bresennol.
- Yn cytuno y dylai'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol barhau i adolygu a herio rhagolygon meysydd gwasanaeth er mwyn ceisio rheoli'r rhagolygon cyffredinol o fewn y gyllideb refeniw craidd, gan gynnwys symiau wrth gefn y gyllideb refeniw.
- Yn nodi'r risgiau allweddol a nodwyd drwy'r holl adroddiad, yn enwedig risgiau'n gysylltiedig â lleoliadau digartrefedd a gofal cymdeithasol.
- Yn nodi'r sefyllfa gyffredinol mewn perthynas â'r ysgolion, o'i chymharu â'r blynyddoedd cynt, ond hefyd yn nodi'r risg y gallai sefyllfaoedd o ddiffyg ddod i'r amlwg yn y dyfodol heb gynllunio a rheoli ariannol da.
- Yn nodi'r symudiadau a ragwelwyd yn y cronfeydd wrth gefn.
- Yn cymeradwyo dyrannu tanwariant 2021/22 a oedd yn dal heb ei ddyrannu yn yr alldro, fel y nodwyd yn adran 4 yr adroddiad, gan nodi lefel cronfeydd cyffredinol a chlustnodedig y Cyngor yn sgil hynny.

**Gweithredu gan** Aelodau Cabinet / Pennaeth Cyllid / Bwrdd Gweithredol:

- Y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol i barhau i adolygu'r materion yn gysylltiedig â sefyllfa gyfredol y meysydd gwasanaeth a, chyda Phenaethiaid Gwasanaeth, i barhau i gymryd camau cadarn i reoli rhagolygon cyffredinol yn unol â'r cyllidebau refeniw craidd sydd ar gael.
- Aelodau'r Cabinet i drafod rhagolygon a phroblemau ariannol yn eu meysydd portffolio a chytuno ar gamau a argymhellir i gysoni'r rheiny â'r cyllidebau sydd ar gael, hyd y bo modd.
- Penaethiaid Gwasanaeth i gyflawni'r arbedion a gytunwyd yng nghyllideb 2022/23 a'r flwyddyn gynt hyd y bo'n ymarferol bosib, ond erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar yr hwyraf.
- Aelodau'r Cabinet a'r Penaethiaid Gwasanaeth i hyrwyddo a sicrhau rhagolygon cadarn drwy eu holl feysydd gwasanaeth.

6 **Monitor Cyllideb Gyfalaf**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r cyllidebau cyfalaf wedi'u diweddaru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ochr yn ochr â sefyllfa'r alldro a ragwelir ar ddiwedd mis Mawrth 2023.

Dyma oedd y trydydd adroddiad monitro cyfalaf ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

Yr adroddiad diweddaraf a roddwyd i'r Cabinet oedd adroddiad Monitro ac Ychwanegiadau mis Hydref. Bu nifer o ychwanegiadau a diwygiadau i'r rhaglen ers hynny. Roedd a wnelo'r rhan fwyaf o'r rheiny â chynlluniau penodol wedi'u cyllido drwy grant. Mae'r rhain yn creu cyfanswm o £8.283m, a manylir arnynt yn Atodiad A. Roeddent yn effeithio ar amryw o flynyddoedd ariannol, gydag £1.4m wedi'i ychwanegu yn 2022/23.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r ychwanegiadau hyn i'r rhaglen.

Effaith net yr ychwanegiadau a'r diwygiadau hyn fyddai cynyddu cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2022/23 i £89.8m.

Yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o £89.8m yn 2022/23, rhagamcanwyd gwariant o £61.3m. Roedd yr amrywiant hwn o £28.5m yn cynnwys £27m o lithriant ac £1.5m o danwariant a gorwariant net "gwirioneddol".

Bu cynnydd o oddeutu £10m yn lefel y llithriant ers yr adroddiad diwethaf, oherwydd oedi a heriau ar draws cynlluniau amrywiol.

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oedd ond angen i'r Cabinet nodi'r rhagolygon cyfredol o lithriant, yn hytrach na'i gymeradwyo. Yn lle hynny, roedd llithriant yn cael ei nodi ym mhob adroddiad monitro, a dim ond yn adroddiad terfynol y flwyddyn y byddai gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyfanswm i'w drosglwyddo i'r blynyddoedd nesaf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r hyblygrwydd cyfalaf, a oedd yn cynnwys:

- £57k o hyblygrwydd ar gyfer benthyg arian.
- £258k yn y gronfa gwariant cyfalaf (mae hyn yn cynnwys ymrwymiad posibl o £1.267m ar gyfer band B)
- £1.474m o dderbyniadau cyfalaf heb eu clustnodi

Roedd balans yr hyblygrwydd a oedd ar gael yn ystyriol o ymrwymiadau a oedd eisoes wedi'u hadlewyrchu yn y Rhaglen Gyfalaf, yn ogystal â chyllid ychwanegol dros dro i gynyddu cyfanswm amlen gyllido Band B i £90m. Roedd hynny'n golygu mai £1.789m oedd yr hyblygrwydd cyfalaf ar hyn o bryd.

Roedd angen rheoli a monitro cyfanswm yr hyblygrwydd hwn, a oedd wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio pan fyddai angen ar gyfer y problemau mwyaf argyfyngus dros y tymor canolig.

Roedd yr heriau o'n blaenau ar hyn o bryd o ran costau cynyddol y diwydiant adeiladu a'r blaenoriaethau a oedd yn cystadlu â'i gilydd am adnoddau cyfalaf yn golygu bod yr angen hwn i fonitro a blaenoriaethu adnoddau'n ofalus yn fwy nag erioed.

Gan hynny, roedd angen manteisio ar gyfleoedd i wneud cyfraniadau untro i'r swm hyblygrwydd pan fyddent ar gael, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb i bwysau a oedd yn dod i'r amlwg a sicrhau y gellid cyflawni'r rhaglen yn llawn.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Batrouni fod y Cyngor yn dal i fuddsoddi yn y ddinas, ei gwasanaethau a'i hysgolion. Roedd y Cabinet wedi cynnwys £39m yn ychwanegol i'r ysgolion, yn ogystal â £18m i adfywio economi'r ddinas. Roedd y rhain yn ymrwymiad i brosiectau adfywio ac ysgolion yng Nghasnewydd.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet

1. Yn cymeradwyo'r ychwanegiadau i'r Rhaglen Gyfalaf a geisiwyd yn yr adroddiad (Atodiad A).

2. Yn nodi sefyllfa a ragwelwyd o ran yr alldro gwariant cyfalaf ar gyfer 2022/23.

Yn nodi'r adnoddau cyfalaf a oedd yn weddill ac ar gael ('yr hyblygrwydd') a'r defnydd clustnodedig o'r adnoddau hynny.

7 **Cyllideb Derfynol a CATC: Cynigion Terfynol - 2023/24**

Cyflwynodd yr Arweinydd gynigion terfynol cyllideb y CATC ar gyfer 2023/24 Roedd yr adroddiad yn dilyn yr adroddiad a ystyriwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr, a gymeradwywyd fel sail ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y gyllideb ddrafft. Roedd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ac roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, y newidiadau i ragdybiaethau cyllidebol a gafwyd yn y cyfamser, a'r cynigion terfynol er ystyriaeth. Dyma oedd un o adroddiadau pwysicaf y flwyddyn, ac roedd yn destun ystyriaeth ofalus, yn enwedig ac ystyried y cyd-destun ariannol yr oedd y Cyngor a'i breswylwyr yn gweithredu ynddo.

Esboniodd yr Arweinydd gefndir y cyllideb, gan ddweud bod yr adroddiad yn cynrychioli penllanw cyfnod hynod heriol, a ddechreuodd gydag ystyriaeth yn y Cabinet o'r goblygiadau wrth inni ddod allan o gyfnod gwaethaf pandemig Covid-19. Ar ddechrau’r flwyddyn, roedd pryder ynghylch effeithiau parhaol y pandemig a chrëwyd cronfa wrth gefn dros dro ar gyfer Covid i liniaru peth o'r ansicrwydd o'n blaenau.

Fodd bynnag, roedd yr hyn a ddilynodd yn wahanol iawn i'r disgwyl - chwyddiant uchel oedd yr her fwyaf o flaen y Cyngor a'r economi ehangach. Arweiniodd hyn at ddyfarniadau cyflog llawer uwch nag a ragwelwyd, gan roi pwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn ar gyllid, a phwysau parhaus yr oedd yn rhaid ei drafod yn rhan o'r gyllideb hon. Yn ogystal â hynny, roedd chwyddiant ynni ar lefel uwch nag erioed, gan effeithio ar gynlluniau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd hyn nid yn unig yn cynnwys y costau a oedd yn cael eu hysgwyddo gan y Cyngor - roedd ei ddarparwyr gwasanaeth hefyd yn wynebu'r un pwysau, ac roedd hynny'n cael ei drosglwyddo i ni.

Roedd y galw am wasanaethau hefyd yn uchel, ac roedd pwysau sylweddol yn dod i'r amlwg mewn sawl maes. Roedd un enghraifft yn gysylltiedig â'r gwasanaethau digartrefedd, lle'r oedd y galw uchel parhaus am lety dros dro yn rhoi pwysau ariannol aruthrol ar y Cyngor. Roedd y gyllideb ddrafft hon yn mynd i'r afael â'r lefel gyfredol o wariant, sef £4 miliwn, ac yn ein galluogi i barhau i gefnogi rhai o'r bobl mwyaf agored i niwed yn ein dinas.

O ganlyniad i'r pwysau hyn, roedd ein hadroddiad fis Rhagfyr ar y gyllideb yn amlygu bwlch digynsail yn y gyllideb, ac amlinellwyd nifer o strategaethau er mwyn ceisio cau'r bwlch hwn, gan gynnwys cynnig i godi'r Dreth Gyngor ac arbedion gan yr holl wasanaethau. Yn y cyfarfod ei hun, amlinellwyd dull penodol gennym mewn perthynas â'r ysgolion, lle byddai'r Cyngor yn talu'r gost yn gysylltiedig â pheth o'r pwysau, a'r ysgolion eu hunain yn gorfod amsugno'r gweddill.

-

Y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oedd y rhai a oedd yn sail i'r ymgynghoriad â'r cyhoedd a oedd wedi dod i ben yn gynharach y mis hwn. Roedd hon yn broses eithriadol o anodd, ac nid ar chwarae bach y penderfynwyd ymgynghori ar y cynigion hyn. Roedd yr Arweinydd, felly, yn falch o weld bod lefelau uchel o breswylwyr Casnewydd, a rhanddeiliaid eraill, wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori hon, ac roedd yr amrywiaeth enfawr o ymatebion a gafwyd yn dystiolaeth o hynny.

Roedd yr adroddiad yn amlygu gwahanol ffynonellau'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roedd cyfanswm o 1,800 o ymatebion wedi dod i law. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r blynyddoedd cynt, a gefnogwyd yn rhannol gan ymatebion Wi-Fi y bysus, wedi'u hysgogi gan gynnydd yn nifer y teithwyr. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd amryw o ymarferion ymgysylltu, gan gynnwys arolwg cyn y gyllideb, ymgysylltu â'r Comisiwn Tegwch, ymgysylltu â'r Cyngor Ieuenctid, digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus a digwyddiadau â defnyddwyr y byddai'r cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Cafwyd ymatebion gan undebau llafur, pwyllgorau craffu a Fforwm Ysgolion.

Roedd Atodiadau 1 i 4 yn rhoi manylion yr ymatebion a gafwyd, a thynnodd yr Arweinydd sylw at rai o'r negeseuon allweddol.

Roedd hi'n glir o ganlyniad yr ymgynghoriad fod elfen o ddealltwriaeth ynghylch y sefyllfa yr oedd penderfynwyr o fewn y Cyngor yn ei wynebu. Darparwyd ystod o ymatebion i gynigion penodol, a oedd yn arbennig o amlwg yn y dadansoddiad ystadegol, lle gwelwyd ystod o safbwyntiau ynghylch cynigion penodol. Roedd cefnogaeth glir hefyd i rai cynigion, ac roedd hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cabinet fod teimladau preswylwyr wedi'u hadlewyrchu wrth lunio'r cynigion hynny.

Roedd rhai o'r sylwadau ansoddol a wnaed yn berthnasol ac, fel cyngor a oedd yn gwrando, cymerwyd y sylwadau hyn o ddifrif gan y Cabinet, gydag ymrwymiad i weithredu ar y rheiny pan fyddai hynny'n bosibl. Deallwyd nad oedd lleihau gwasanaethau mewn meysydd fel y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd i fod yn boblogaidd, gan mai dyma'r gwasanaethau sy'n diogelu rhai o'n pobl sydd yn fwyaf agored i niwed. Ein hymagwedd oedd osgoi gostyngiadau i wasanaethau hanfodol, a dim ond lleihau neu roi terfyn ar wasanaethau lle byddai modd rheoli effaith hynny. Roedd angen gwneud penderfyniadau anodd, ac roedd y Cabinet am geisio cydbwyso'r effaith ar draws gwasanaethau hyd y bo modd.

O ran y Dreth Gyngor, roedd hi'n glir ac yn braf gweld cydnabyddiaeth nad oedd modd osgoi cynnydd, a thrwy gynyddu cyfradd y Dreth Gyngor y gallai'r gwasanaethau mwyaf hanfodol gael eu diogelu.

Roedd yr Arweinydd am sicrhau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fod adborth yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio wrth benderfynu ynghylch ein cynigion terfynol. Byddai'r Cabinet yn parhau i adolygu dull y Cyngor o ymgynghori a'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yng nghynigion y gyllideb i sicrhau y gallai cynifer o bobl ag sy'n bosibl gymryd rhan yn llawn yn y broses.

Roedd llunio'r gyllideb yn broses a oedd yn newid o hyd o'r naill flwyddyn i'r nesaf, a bu nifer o newidiadau allweddol ers cyhoeddi'r cynigion drafft ym mis Rhagfyr. Y newid pwysicaf o blith y rhain, fel y cyhoeddwyd yng nghyfarfod y Cabinet ei hun, oedd cyhoeddi setliad drafft Llywodraeth Cymru, a ddarparodd £11.7m o gyllid yn ychwanegol at yr hyn a ragdybiwyd eisoes. Yn ogystal â hynny, ymgorfforodd y Cabinet y cyfraniad drafft gan ysgolion, yn ogystal â nifer o newidiadau cadarnhaol eraill i ragdybiaethau cyllidebol, ee, llai o bwysau mewn rhai meysydd, arbedion newydd nad oeddent yn gysylltiedig â gwasanaethau a chyllid grant penodol a fyddai ar gael i wrthbwyso pwysau y tybiwyd yn flaenorol y byddai'r Cyngor yn eu hysgwyddo.

Er bod y newidiadau hyn wedi lleihau bwlch sylweddol yn y gyllideb, ac yn rhywbeth i'w groesawu, roedd hi'n anochel y byddai rhai newidiadau na fyddent ond yn ychwanegu at y

pwysau, fel yr angen i gynyddu'r rhagdybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, yn ogystal â phwysau eraill a oedd yn dod i'r amlwg mewn gwasanaethau penodol. Roedd yr adroddiadau'n rhestru'r rhagdybiaethau cyfredol.

Penllanw'r newidiadau hyn oedd bod gennym bellach falans mewn llaw o oddeutu £2.5m. Manylodd yr Arweinydd ar y modd y bwriadwyd targedu'r balans mewn llaw mor effeithiol ag a oedd yn bosibl, ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriad.

Roedd hi'n amlwg o'r adborth a gafwyd fod ymdeimlad cryf o blaid y ddarpariaeth seibiannau byr a gynigir ar hyn o bryd yn Oaklands a Spring Gardens. Cydnabu'r Cabinet fod angen gwarchod gwasanaethau hanfodol fel y rhain, a oedd yn cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed, hyd yr eithaf. Cyhoeddodd yr Arweinydd felly y byddai'r cynnig yn gysylltiedig ag Oaklands yn cael ei dynnu'n ôl ar gost o £485k. O ran Spring Gardens, byddai'r cynnig yn cael ei ostwng i £300k ar sail barhaol fel y byddai peth o'r ddarpariaeth yn parhau, ac yn ogystal â hynny ymrwymodd y Cabinet swm untro o £200k o gronfeydd wedi'u hailflaenoriaethu ar gyfer 2023/24, i gynnig capasiti ar gyfer darpariaeth barhaus bellach, ac i ganiatáu amser i adolygu'r gwasanaeth a'i ddatblygu i fod yn fwy cynaliadwy.

Hefyd, ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd yn ofalus, y penderfyniad dynnu'r cynnig yn ôl i gyflwyno taliadau maes parcio mewn pedwar maes parcio gwledig. Yn ogystal â hynny, ni fyddai unrhyw daliadau am finiau newydd yn ystod 2023/24, ar ôl ystyried yr effaith ar breswylwyr a oedd yn profi'r mwyaf o anhawster gyda'r argyfwng costau byw. Byddai'r cynnig yn cael ei ailystyried a'i adolygu, ac ond yn cael ei gyflwyno mewn blwyddyn yn y dyfodol, os oeddem yn teimlo bod hynny'n deg â'r holl breswylwyr. Cost tynnu'r ddau gynnig hwn yn ôl oedd £90k.

Mewn perthynas â'r Dreth Gyngor, o wrando ar safbwyntiau preswylwyr Casnewydd ynghylch y cynnig am gynnydd o 9.5%, deallwyd bod cynnydd o'r maint hwn yn heriol iawn i'r preswylwyr, ar adeg pan oedd costau biliau eraill y cartref hefyd yn codi. Roedd y Cyngor hefyd yn wynebu'r un pwysau o ran costau, ynghyd â chyfradd gymharol isel o Dreth Gyngor o gymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Er hynny, roedd y Cabinet yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ei allu i helpu'r preswylwyr, a chynigiodd ostwng y cynnydd i'r Dreth Gyngor i 8.5% er mwyn sicrhau ei fod yn is na'r gyfradd chwyddiant gyfredol. Ar gyfer Bandiau A i C, y rhai mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd, roedd hyn yn gyfystyr â chynnydd o £1.39 i £1.85 yr wythnos. Byddai hyn yn dal i olygu bod gan Gasnewydd un o'r cyfraddau Treth Gyngor isaf ledled Cymru a'r DU, a byddai'r preswylwyr hynny a oedd yn derbyn cymorth i dalu eu biliau Treth Gyngor drwy 'Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor' yn parhau i dderbyn cymorth gan fod y Cabinet yn cyllido'r cynllun hwnnw'n llawn i fod yn gyson â'r cynnydd hwn, ac roedd y Cyngor eisoes wedi penderfynu cymhwyso'r cynllun ar raddfa Cymru mewn perthynas â hyn.

Yn sgil lleihau'r cynnydd i'r Dreth Gyngor, a lleihau neu dynnu'n ôl o'r cynigion arbed a amlinellwyd uchod, roedd y balans mewn llaw yn gostwng i £937k. Credai'r Cabinet mai'r defnydd gorau o'r swm hwn a oedd yn weddill oedd lleihau'r swm yr oedd angen i ysgolion ei gyfrannu at fwlch y gyllideb. Roedd y Cabinet yn cydnabod bod hyn yn dal i adael her i'r ysgolion ar ddechrau 2023/24, ac i'w helpu gyda'r her hon, roedd yn ymrwymo i ddefnyddio bron £1.9m o gronfeydd clustnodedig wedi'u hailbwrpasu i dargedu cymorth ariannol at yr ysgolion â'r angen mwyaf. O gymryd hyn i ystyriaeth, roedd yn golygu ymrwymiad o £9m tuag at y pwysau o flaen ysgolion yn 2023/24.

Yn ogystal â defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbwrpasu i gefnogi Spring Gardens a'r ysgolion, roedd y Cabinet yn bwriadu rhoi cymorth dros dro i Growing Space am y ddwy flynedd nesaf a rhoi cymorth dros dro i'r GCA fel bo modd gohirio'n rhannol yr arbediad a gynigiwyd ar ein cyfraniad blynyddol. Unwaith eto, roedd yr arbedion hyn yn galluogi adolygiadau a newidiadau i wasanaethau a fyddai'n fodd i gynnig gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy o hyn allan, yr oedd rhai ohonynt yn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein hardal.

Yn ogystal â hyn, byddai £150k o'n cronfeydd wrth gefn presennol yn cael eu defnyddio fel bo modd adolygu newidiadau i wasanaethau i bobl ag anabledd dysgu, a'u cyflwyno dros y flwyddyn a oedd i ddod.

Ar ben hynny, ar gyfer Cwtsh a phartneriaeth Barnardo's, bu swyddogion yn gweithio i ailfodelu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio cyllid grant ar gyfer diwygio radical. Byddai'r staff cyfredol a'u holl brofiad a'u sgiliau yn cael eu cynnwys yn rhan o'r gwaith ailfodelu hwn. I bob pwrpas, golygai hyn y byddai'r cynnig i arbed yn cael ei ohirio am ddwy flynedd.

Byddai cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbwrpasu yn cynnig buddsoddiad untro pellach i ganol y ddinas, gan sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cynnal adferiad canol y ddinas wrth ddod allan o'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cymorth Ardrethi Busnes y Cyngor ar gyfer y busnesau cymwys hynny yng nghanol y ddinas fel na fyddai ganddynt ardrethi busnes i'w talu yn 2023/24, ochr yn ochr â chynllun cymorth ardrethi LIC.

Drwy ddyrannu'r balans mewn llaw, roedd hynny'n golygu bod y Cabinet yn cynnig balans cytbwys ar gyfer 2023/24, yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol. Roedd hyn wedi'i gyflawni heb wneud defnydd cyffredinol o gronfeydd clustnodedig i fantoli'r gyllideb. Roedd hyn oherwydd y byddai'r defnydd o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbwrpasu naill ai'n ddefnydd untro neu i roi cymorth am flwyddyn i ddwy flynedd yn unig, fel y gellid adolygu a newid gwasanaethau i sicrhau arbedion yn y dyfodol, ac fel y gallent fod yn fwy cynaliadwy gan gynnig gwasanaeth a chanlyniad gwell. Efallai y bydd rhai'n amheus o'r dull hwn, yn enwedig ac ystyried rhai o'r arbedion anodd a gynigiwyd. Fodd bynnag, fel Cyngor cyfrifol, rydym yn ystyried rheolaeth ariannol yn fater difrifol iawn. Byddai defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn opsiwn hawdd, ond ni fyddai hynny ond yn golygu bod problemau'n cronni i'r flwyddyn nesaf a thu hwnt. Byddai'r Cyngor yn y pen draw yn dal i sicrhau'r un lefel o arbedion, ond byddai wedyn angen inni hefyd ail-lenwi unrhyw gronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd. Y cam gywir am eleni felly oedd ymddwyn yn gyfrifol a sicrhau bod y Cyngor ar seiliau cynaliadwy'n ariannol.

Er bod y broses o ddatblygu cyllideb ar gyfer 2023/24 yn hynod heriol, yn anffodus nid oedd y rhagolygon ar gyfer y tymor canolig yn edrych yn haws o gwbl. Roedd Oaklands, Atodiad 7 yr adroddiad, yn amlygu bwlch posibl o £15m yn y gyllideb yn 2024/25 a bwlch arall o £12m yn 2025/26. Er bod y ffigurau hyn yn is na'r bwlch cychwynnol yn 2023/24, roedd cryn ansicrwydd yn parhau, o ran pwysau chwyddiant parhaus a'r galw am wasanaethau, yn ogystal â'r cyllid a fyddai'n cael ei dderbyn gan y llywodraeth ganolog. Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi setliad dangosol ar gyfer 2024/25, roedd hwnnw'n dibynnu ar y setliad y byddai'n ei dderbyn gan Lywodraeth y DU, a allai newid. Roedd posibilrwydd y gallai'r bwlch tymor canolig fod yn waeth na'r hyn a fodelwyd. Ar ben hynny, byddai'n dilyn y penderfyniadau heriol a wnaed eisoes yn barod am 2023/24.

Roedd yn debygol iawn felly y byddai angen gwneud penderfyniadau heriol pellach yn gysylltiedig â'r Dreth Gyngor ac arbedion yn y dyfodol. I fynd i'r afael â hyn, roedd angen i'r Cyngor barhau i fyfyrio ar ei ddull o weithredu ac ystyried sut i ddarparu gwasanaethau'n wahanol. Roedd angen trawsnewid gwasanaethau i sicrhau profiadau gwell i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, ar sylfaen gostau is. O hyn allan, roedd angen inni edrych ar bethau'n wahanol er mwyn sicrhau cyngor cynaliadwy, modern, addas ar gyfer y 21st ganrif.

Ailadroddodd yr Arweinydd fod y broses hon yn hynod anodd, a diolchodd i'w gyd-aelodau o fewn y Cabinet a'r swyddogion a oedd wedi gweithio'n ddi-flino i sicrhau bod y cynigion yn creu cyllideb gytbwys. O dan yr amgylchiadau, roedd y gyllideb hon yn deg, yn gynaliadwy a chyfrifol.

Dim ond y Cyngor llawn a allai gymeradwyo cyfradd gyffredinol y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd argymell cyllideb net gyffredinol a'r Dreth Gyngor yn sgil hynny i'w cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor ar 28 Chwefror 2023.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Diolchodd y Cynghorydd D Davies i'r preswylwyr hynny a gymerodd ran yn y broses ymgynghori, a diolchodd hefyd i'r swyddogion fu'n gweithio'n hynod o galed er mwyn cyfrannu i'r adroddiad hwn. Roedd y Cabinet wedi cyfarfod ag arweinwyr yr undebau a'r athrawon - bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Gobeithiwyd y byddent yn cytuno bod y Cabinet wedi gwrando'n ofalus. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, er y byddai'r Dreth Gyngor yn codi, mai Casnewydd oedd â'r Dreth Gyngor isaf yng Nghymru. Yn y Cyngor yn ddiweddar, cytunwyd yn unfrydol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, i ganiatáu esemptiad o'r Dreth Gyngor i rai anghenus; roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr, pobl a oedd yn byw ar eu pen eu hunain, gofalwyr a rhai ag anableddau ymhlith eraill a oedd hefyd yn gynnwys, gan gynnwys rhai ar incwm isel. Gan droi at Addysg yn olaf, croesawyd y £937,000 yn ychwanegol a oedd yn cael ei roi i gefnogi ein hysgolion, a gobeithiwyd drwy graffu'n ofalus y byddai ysgolion Casnewydd yn cydbwyso eu cyllidebau eleni.

- Roedd y Cynghorydd Harvey wedi cyfarfod â phreswylwyr a fynegodd eu hanfodlonrwydd ynghylch y cynigion gwreiddiol yn Oaklands. Dywedodd wrthynt am lenwi'r ffurflen ymgynghori, ac roedd yn falch iddynt wneud hynny gan eu bod wedi cael llais. Roedd hi'n braf gweld bod preswylwyr wedi llenwi'r ymgynghoriad, a bod pobl yn deall y pwysau ar gyllideb y Cyngor.

- Soniodd y Cynghorydd Hughes ei fod ef a’i gyd-aelod ar y Cabinet wedi cyfarfod â gwasanaethau allweddol a allai wynebu'r canlyniadau mwyaf anodd yn ystod yr ymgynghoriad, ac achubodd ar y cyfle i ddiolch i'r rhai hynny a oedd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad, yn enwedig y rhai yn Spring Gardens a Growing Spaces. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r uwch dîm rheoli yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r gweithwyr cymdeithasol. Roedd unigolion a gyfrannodd i'r ymgynghoriad, fel preswylwyr Oaklands, wedi cael effaith emosiynol, ac roedd hynny'n dangos bod gwerth i ymgynghori yng Nghasnewydd, a bod gwrando ar eu storïau wedi gwneud gwahaniaeth. Y ffocws o'r dechrau i'r diwedd fu diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, ac roedd y Cynghorydd Hughes felly'n falch bod prosiectau a olygai gymaint i bobl Casnewydd wedi'u diogelu.

- Roedd y Cynghorydd Lacey yn croesawu'r gyllideb, a ddangosai fod y Cabinet wedi ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, y enwedig mewn perthynas â Spring Gardens ac Oaklands. Er y bu cynnydd o 8.5% i'r Dreth Gyngor, roedd y cynnydd yn is wrth gymharu â chynghorau eraill yn enwedig yn Lloegr lle'r oedd y cynnydd dros £100, o gymharu â'r cyfartaledd o £96.20 bob blwyddyn. Roedd hefyd yn golygu y byddai'r cynnydd yn caniatáu i rai na allent dalu eu Treth Gyngor i fod yn gymwys i dderbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, fel y soniwyd gan y Dirprwy Arweinydd. Roeddem yn gyngor a oedd yn gwrando, ac yn gwrando ar ein preswylwyr mwyaf agored i niwed.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Marshall ei bod yn braf gweld y cydweithio a gafwyd i ddiogelu addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol wrth ystyried y gyllideb. Gwnaethom wrando ar breswylwyr, rhieni a staff a phwyllgorau craffu. Cynigiodd preswylwyr lawer o awgrymiadau da yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd Aelodau Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wirioneddol ddiolchgar am gyfraniad rhieni preswylwyr Oakland. Mynegodd y Cynghorydd Marshall hefyd ei werthfawrogiad i bawb a gymerodd ran, ac o ganlyniad teimlai ein bod mewn sefyllfa decach, a bod addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol wrth galon yr hyn a oedd yn cael ei wneud.

- Soniodd y Cynghorydd Forsey fod yr ystod o gynigion yn eang, a bod y penderfyniad i lunio'r gyllideb hon yn un anodd, ond yn rhesymegol a gofalgar. Wrth ystyried lleihau casgliadau bin neu gadw Oaklands ar agor, nid oedd unrhyw gymhariaeth. Atgoffodd yr Aelod Cabinet bawb o'r ystod o gyfleusterau ailgylchu a fyddai o gymorth i gefnogi'r casgliadau bin teirwythnosol.

- Roedd y Cynghorydd Batrouni hefyd o blaid y cynigion yn adroddiad y gyllideb.

- Diolchodd yr Arweinydd i gyd-aelodau'r Cabinet a'r swyddogion fu'n gweithio'n ddiflino i gyflwyno'r gyllideb a gynigiwyd heddiw. Adleisiodd yr Arweinydd y cyfeiriad gan y Cynghorydd Davies at nosweithiau di-gwsg, a deallai mai dyna fu profiad y swyddogion hefyd, a diolchodd iddynt unwaith eto. Roedd y gyllideb yn gyllideb deg, gynaliadwy a chyfrifol, a oedd yn rhoi'r flaenoriaeth i'r rhai a oedd yn fwyaf agored i niwed.

**Penderfyniad:**

Roedd y Cabinet, mewn perthynas â chynigion y gyllideb a'r cynllun tymor canolig (adran 3-5)

1. Yn nodi'r ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb, fel yr amlinellwyd yn adran 4, a'r adborth a gafwyd, ac a ddangoswyd yn Atodiadau 1 i 4.

2. Yn nodi'r materion cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb ar gynigion y gyllideb, a ddangoswyd yn Atodiad 9.

3. Wedi adolygu a chadarnhau cynigion y gyllideb (atodiadau 5-6) yn unol â'r crynodeb yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, ar wahân i'r newidiadau canlynol:

    - Byddai'r cynnig yn gysylltiedig ag Oaklands yn cael ei dynnu'n ôl ar gost o £485k
    - O ran Spring Gardens, byddai'r cynnig yn cael ei ostwng £300k ar sail barhaol fel bo modd i beth o'r ddarpariaeth barhau, ac yn ogystal â hynny roeddem yn ymrwymo swm untro o £200k o gronfeydd wedi'u hailbwrpasu ar gyfer 2023/24 yn unig, i greu capasiti ar gyfer darpariaeth barhaus bellach, ac i ganiatáu amser i adolygu'r gwasanaeth a'i ddatblygu i fod yn fwy cynaliadwy.
    - Tynnu'r cynnig i gyflwyno taliadau parcio mewn pedwar maes parcio gwledig yn ôl.
    - Tynnu taliadau am fin newydd yn ôl.
    - Gostyngiad o £937k i'r swm yr oedd angen i'r ysgolion ei gyfrannu at fwlch y gyllideb.
    - Darparu swm untro o £1.87m i gefnogi'r ysgolion sydd angen cymorth fwyaf yn ystod 2023/24 o gronfeydd wedi'u hailbwrpasu.
    - Rhoi cymorth dros dro o £100k i Growing Space am y ddwy flynedd nesaf, a rhoi cymorth dros dro o £79k ar gyfer 2023/24 yn unig i'r GCA fel bo modd gohirio'n rhannol yr arbediad a gynigiwyd i'n cyfraniad blynyddol.
    - Cwtsh a phartneriaeth Barnardo's - mae swyddogion wedi gweithio i ailfodelu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio cyllid grant ar gyfer diwygio radical. I bob pwrpas, bydd hyn yn golygu gohirio'r cynnig i arbed am 2 flynedd.
    - Bydd cronfeydd wedi'u hailbwrpasu hefyd yn darparu buddsoddiad untro pellach yng nghanol y ddinas, i sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cynnal adferiad y ddinas.

4. Yn cytuno ar ffioedd a thaliadau'r cyngor ar gyfer 2023/24, fel y dangoswyd yn atodiad 11.

Roedd y Cabinet, mewn perthynas â'r gyllideb refeniw gyffredinol a threth gyngor 2023/24 yn sgil hynny
(adran 6 a 7)

5. Yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol o fewn cynlluniau'r gyllideb, a'r problemau penodol a amlygwyd yn adran 6 yr adroddiad hwn, a'r camau lliniaru ar waith i'w rheoli.

6. Yn adolygu a chytuno i ailbwrpasu cronfeydd clustnodedig penodol, fel y nodwyd yn Atodiad 10a

7. Yn cynnig gostwng y cynnydd arfaethedig i'r Dreth Gyngor i 8.5% i sicrhau ei fod yn is na'r gyfradd chwyddiant gyfredol, ac yn cyllido gofyniad y gyllideb.

8. Yn argymell cyllideb net gyffredinol a threth gyngor yn deillio o hynny i'r Cyngor llawn, gan nodi y byddai penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Cynghorau Cymuned yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ar 28 Chwefror.

Yn cymeradwyo'r gwariant a'r defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn unol â'r crynodeb a ddangoswyd yn atodiad 10b, gan nodi eu bod yn seiliedig ar gynigion manwl a adolygwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022.

8 **Pwysau Allanol NCC - Costau Byw**

Cyflwynodd yr Arweinydd y diweddariad diweddaraf ynghylch effaith pwysau allanol ar wasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd, gan roi crynodeb hefyd o gamau a gymerwyd â phartneriaid lleol.

Roedd yr adroddiad misol hwn yn rhoi trosolwg cyfredol o'r effaith economaidd ehangach yn y DU ac yng Nghymru ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2023.

I lawer o breswylwyr dyma oedd un o'r cyfnodau mwyaf anodd yr oeddent wedi'u profi, ac roedd y Cabinet yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol ar draws y ddinas.

Gan y byddai'r pwysau hyn yn parhau, anogodd yr Arweinydd yr holl breswylwyr a oedd yn profi anawsterau i gysylltu â'r cyngor i gael gwybodaeth am y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu gyda biliau'r cartref a rhwymedigaethau ariannol eraill.

Ar adegau fel hyn, roedd y gallu i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ein preswylwyr, ein busnesau a'n staff o'r pwys mwyaf.

Roedd ymrwymiad swyddogion a'n partneriaid i gydweithio i wneud gwahaniaeth, ac i helpu pobl i dderbyn cymorth, cyngor a chefnogaeth yn glir yn yr holl drafodaethau a gynhaliwyd â'r Arweinydd yn fewnol, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ei rôl fel Arweinydd y Cyngor ac fel Cadeirydd partneriaeth Casnewydd yn Un.

Roedd y mater hwn yn cael ei deimlo ledled Cymru a thu hwnt. Parhaodd yr Arweinydd i godi'r angen i sicrhau cymorth ar bob cyfle, ac i sicrhau, fel cyngor, cefnogaeth i fentrau lleol a mentrau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cymorth y gallai'r Cyngor a'i bartneriaid ei gynnig hyd yr eithaf.

Wrth i'r cyfryngau'n adrodd bod elusennau yn amcangyfrif cynnydd o 30% yn y nifer a oedd yn defnyddio banciau bwyd, roedd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â GAVO i roi cymorth i'r banciau bwyd ar draws y ddinas.

Roedd yr adroddiad yn esbonio sut roedd yr ysgolion yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth y gallent fanteisio arnynt a'u darparu i blant a phobl ifanc er mwyn helpu teuluoedd mewn angen ar draws Casnewydd.

Yn ystod cyfnodau o dywydd oer, roedd preswylwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio mannau cynnes ar draws y ddinas i gadw'n gynnes ac i gael cymorth a chyngor.

Fel dinas â hanes hir o groesawu pobl sy'n ceisio lloches, drwy gynnig lle diogel i rai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth, roedd y Cyngor yn parhau i helpu ffoaduriaid i ganfod llety a derbyn cymorth.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Davies am hanner tymor yr wythnos nesaf a diolch i LIC am ei chynllun talebau, gan werthfawrogi ei bod hi'n anodd i deuluoedd ar incwm isel ac o ran darpariaeth gofal plant, i dalu'r gost tra byddai'r ysgolion ar gau am yr wythnos. Roedd angen canolbwyntio ar gyfnod sylfaen yr ysgolion yr haf nesaf, byddai gan bob plentyn hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim, drwy gynllun a fyddai'n cael ei weithredu ym mis Medi.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Lacey at gefnogaeth GAVO a banciau bwyd, a diolchodd i Raven House a banciau bwyd eraill am eu cymorth o fewn y ddinas. Roedd nifer yn manteisio ar y banciau bwyd, a rhwng wardiau Alway a Ringland roedd y Cynghorwyr Lacey a Harvey yn ymdrin â 50 o barseli bwyd bob wythnos. Roedd nifer hefyd yn manteisio arnynt mewn wardiau eraill, a phwysleisiodd y Cynghorydd Lacey na ddylai preswylwyr oedi cyn cysylltu ag unrhyw aelod ward, os oedd angen parseli bwyd arnynt, hyd yn oed os oeddent y tu allan i'w ward.

- Roedd y Cynghorydd Hughes wedi treulio amser yn Hafan Isga yng Nghaerllion. Roedd y prosiect wedi dod i ben heddiw, ac felly achubodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i ddiolch i'r deg gwirfoddolwr ar hugain fu'n helpu gyda phroblemau cyllid ac ynni o fis Hydref i fis Chwefror. Yn ogystal â hynny, diolchodd y Cynghorydd Hughes i asiantaeth newydd a sefydlwyd yn ddiweddar yng Nghaerllion, sef y Kindness Exchange, am ddarparu bwyd a oedd wedi mynd heibio'i ddyddiad gwerthu i'r gymuned leol a'r cyhoedd ehangach. Yn olaf, os oedd ar bobl angen bwyd neu asiantaethau a allai roi cymorth iddynt, dywedwyd wrthynt am gysylltu ar unwaith.

- Soniodd y Cynghorydd Forsey am effaith Brexit, gan ddweud bod preswylwyr £1,000 y flwyddyn yn dlotach a'r angen am fannau cynnes wedi cynyddu.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i effaith ffactorau allanol ar gymunedau a busnesau Casnewydd, a gwasanaethau'r Cyngor.

9 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Gofynnwyd am gael derbyn y rhaglen wedi'i diweddaru.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

The meeting terminated at Time Not Specified